# Adroddiad Arolygu ar

**Gardens Care Home**

**42 Victoria Gardens**
**Castell-nedd**
**SA11 3BH**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

22 Hydref 2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Gardens Care Home

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Gardens Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 4 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 8 Mai 2019 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu'n arddangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |

## Crynodeb

Cartref gofal bach yw Gardens Care Home mewn ardal breswyl ar gyrion Castell-nedd. Mae gardd a lawnt i'r tu blaen ac ardal batio fach, ddiogel gaeëdig yn y cefn. Mae hefyd man parcio i ddau gerbyd.

Mae pobl sy'n byw yn Gardens Care Home yn cael eu trin ag urddas, trugaredd a pharch ac maent yn cael eu cefnogi gan dîm staff cyson ac ymroddgar sydd yn eu hadnabod yn dda. Mae'r bobl yn ymddangos yn hapus yn byw mewn cartref sy'n groesawgar, wedi'i bersonoli ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Anogir pobl i wneud pethau y maent yn eu mwynhau ac yn cynnal perthnasau â ffrindiau a theulu. Mae'r gweithwyr gofal yn fodlon yn eu rolau, yn cael eu cefnogi ac yn cael eu hyfforddi'n briodol. Fodd bynnag, mae angen gwneud gwelliannau i sicrhau bod yr holl waith papur recriwtio ar gael mewn ffeiliau personél. Mae systemau ar waith er mwyn sicrhau y darperir gofal i ddiwallu anghenion newidiol pobl a bod digon o oruchwyliaeth o'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei gyflwyno.

## Llesiant

Mae gan bobl lais ac maent yn cael eu trin ag urddas a pharch gan weithwyr gofal sydd yn eu hadnabod yn dda. Mae pobl yn cymryd rhan yn y gwaith o ysgrifennu eu cynlluniau personol sy'n cael eu hadolygu er mwyn diwallu eu hanghenion gofal cyfredol. Anogir pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol a threfnu pethau y maent yn eu mwynhau i edrych ymlaen atynt. Roedd y bobl y siaradwyd â hwy yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y gwasanaeth ac maent wedi adeiladu perthnasau da â'r tîm gofal.

Mae iechyd corfforol a meddwl pobl, a'u llesiant emosiynol, yn cael eu hyrwyddo. Rheolir meddyginiaeth yn effeithiol yn y gwasanaeth, mae'n cael ei chadw a'i chofnodi'n gywir. Mae'r gweithwyr gofal a'r tîm rheoli'n adnabod y bobl maent yn eu cynorthwyo yn dda ac yn gallu nodi unrhyw arwyddion o salwch a cheisio cyngor meddygol pan fydd angen.

Caiff pobl eu cefnogi i gynnal perthnasau. Mae gan y gweithwyr gofal gydberthnasau da gyda'r bobl ac yn gwybod sut i'w cefnogi'n dda. Mae'r gwasanaeth yn annog pobl i gadw mewn cysylltiad â theuluoedd a ffrindiau ac yn helpu i drefnu gweithgareddau cymunedol. Roedd y perthnasau y siaradwyd â hwy yn canmol hwn. Mae'r bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau ac mae ganddynt bethau maent yn edrych ymlaen atynt.

Caiff pobl eu diogelu rhag niwed ac esgeulustod. Mae tystysgrifau a gweithdrefnau cyfredol ar gael i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn gyfforddus i bobl. Mae'r gweithwyr gofal wedi cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf ac maent yn glir am eu cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am y bobl maent yn eu cefnogi. Mae gweithdrefnau da ar waith er mwyn lleihau'r risg o COVID-19 yn dod i mewn i'r gwasanaeth.

Mae'r darparwr yn gweithio tuag at Gynnig Rhagweithiol y Gymraeg. Mae hyn yn golygu gallu darparu gwasanaeth a dogfennau yn y Gymraeg heb i bobl orfod gofyn amdanynt. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw alw i ddarparu gwasanaeth i bobl yn y Gymraeg. Fodd bynnag, pe bai galw yn y dyfodol, byddai'r gwaith o gyfieithu dogfennau allweddol yn cael ei ystyried ynghyd â recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg.

## Gofal a Chymorth

Mae pobl yn rhan o gynllunio eu gofal i sicrhau eu bod yn derbyn yr ansawdd gofal a chymorth y mae ei angen arnynt. Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn y gwasanaeth ac yn canmol y cymorth maent yn ei dderbyn. Roedd sylwadau'n cynnwys "*Rwy'n dwlu ar y ffaith eu bod yn gwybod beth rwy'n ei hoffi beth nad wy'n ei hoffi" ac "rydyn ni i gyd fel teulu".* Gwnaethom edrych ar ddwy ffeil ofal a chanfod bod cynlluniau personol yn rhoi trosolwg da o'r unigolyn a'r cymorth sydd ei angen arnynt. Mae llofnodion yn weladwy ar y cynlluniau hyn i gadarnhau cyfraniad pobl yn y broses gynllunio ac wrth gytuno ar y cynnwys. Cynhelir adolygiadau misol i sicrhau bod cynlluniau personol yn cael eu diweddaru gydag unrhyw newidiadau i anghenion pobl. Mae asesiadau risg cyfredol ar waith i roi dulliau addasadwy i weithwyr gofal ddarparu gofal a lleihau risg i bobl.

Mae systemau diogel ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaeth yn y gwasanaeth ac er mwyn cynnal iechyd pobl. Mae meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel mewn cwpwrdd dan glo gyda phob unigolyn yn cael bocs i storio meddyginiaeth bersonol. Gwnaethom weld bod gwiriadau tymheredd dyddiol ar waith i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu storio'n briodol. Mae'r Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth a welwyd wedi'u cwblhau'n gywir gyda llofnodion y staff gofal yn weladwy. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl maent yn eu cynorthwyo yn dda ac yn gallu nodi unrhyw ddirywiad yn eu hiechyd a cheisio cymorth mewn modd amserol. Gwelsom o'r ffeiliau gofal fod pobl yn cael eu cefnogi i fynychu apwyntiadau rheolaidd ac apwyntiadau argyfwng meddygol yn ôl yr angen.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion hylendid ac yn rheoli'r risg o groes-heintio. Gwelsom fod staff gofal yn gwisgo cyfarpar diogelu personol yn briodol. Mae gwiriadau tymheredd ar waith ar gyfer aelodau staff bob dydd ac mae'r bobl a'r gweithwyr gofal yn cymryd rhan yn y rhaglenni profi niferus a gynhelir yn wythnosol i leihau'r risg o COVID-19 yn dod i mewn a lledaenu yn y gwasanaeth. Wrth gyrraedd, gofynnwyd i ni ddangos canlyniad ein prawf llif unffordd er mwyn cadarnhau bod canlyniad negatif yn weladwy cyn mynd i mewn i'r adeilad. Esboniodd y rheolwr fod croeso i deuluoedd wneud yr un peth ond mae'r rhan fwy o bobl yn penderfynu ymweld y tu allan i'r cartref neu allan yn y gymuned.

Anogir pobl i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau yn y gwasanaeth. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd pobl yn edrych ymlaen at ddigwyddiadau oedd wedi'u cynllunio ac roeddent yn siarad am yr hyn y maent wedi'i fwynhau dros y diwrnodau diwethaf. Gwnaeth y gweithwyr proffesiynol y gwnaethom siarad â nhw gadarnhau hyn hefyd. "*Maen nhw'n mynd â phreswylwyr allan yn rheolaidd ac yn eu cefnogi i wneud y pethau maen nhw eisiau eu gwneud".* Anogir pobl i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau. Er gwaethaf pandemig y coronafeirws, dywedodd perthnasu wrthym "*Rydym wedi llwyddo i weld X trwy gydol y pandemig sydd mor bwysig inni i gyd"* a *"Rwy'n gallu gweld Y yn aml, nid oes gennyf unrhyw gwynion".*

## Yr Amgylchedd

Mae'r darparwr yn sicrhau bod gofal a chymorth unigolyn yn cael ei ddarparu mewn lleoliad ac amgylchedd sy'n cynnwys cyfleusterau a chyfarpar sy'n eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Lleolir Gardens Care Home yng nghanol Castell-nedd, yn agos at y siopau a lleoliadau lletygarwch lleol. Mae ardal eistedd fach gaeëdig wrth gefn yr eiddo a man ysmygu dynodedig ar wahân. Y tu mewn, mae'r gwasanaeth, yn gyffredinol, mewn cyflwr da gyda lolfa/ystafell fwyta yn y cefn ar y llawr daear a lolfa ar wahân ar y llawr cyntaf. Mae'r gegin yn fach ond yn llawn offer ac mae'r cyfleusterau golchi dillad mewn adeilad allanol ar wahân. Mae’r ystafelloedd gwely yn cynnwys eitemau personol ac mae digon o le. Gwnaethom ganfod fod mannau cymunol yn lân, yn gartrefol ac yn groesawgar. Dywedodd pobl wrthym eu bod nhw’n hoffi byw yn y gwasanaeth ac yn mwynhau mynd allan i'r siopau ac ardaloedd lleol eraill.

Mae gan y darparwr weithdrefnau ar waith i nodi a lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Gwelsom fod archwiliadau amgylcheddol yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn y cartref i sicrhau bod popeth mewn cyflwr da. Mae hyn yn sicrhau cydymffurfedd â gwiriadau amgylcheddol sy'n cynnwys offer diogelwch tân, gwiriadau drysau a ffenestri a goleuadau argyfwng. Gwelsom fod y tystysgrifau ar gyfer diogelwch tân, y prawf dyfeisiau cludadwy a thrydan yn gyfredol a threfnwyd bod y boeler newydd a osodwyd ym mis Hydref 2020 yn cael ei wasanaethu cyn bo hir. Dywedodd y rheolwr wrthym fod cynlluniau i adnewyddu'r gwasanaeth, fodd bynnag roedd yn rhaid gohirio’r rhain oherwydd pandemig COVID-19.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff pobl eu cefnogi gan dîm gofal bach sydd yn eu hadnabod yn dda ac sy'n cael eu cefnogi yn eu rolau. Gwnaethom edrych ar ddwy ffeil bersonél a gwelsom nad oedd y gofyniad o ddau eirda cyn cyflogaeth ar gael. Rydym wedi hysbysu'r darparwr a chymerir camau i fynd ar drywydd hyn yn yr arolygiad nesaf. Er hyn, mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ac yn cael eu hadnewyddu yn ôl yr angen ac mae dogfennau statudol eraill ar gael. Gwelwyd y metrics hyfforddi a chanfuom fod y rhan fwyaf o weithwyr wedi cael yr hyfforddiant gorfodol diweddaraf yn ôl y manylion yn natganiad o ddiben y gwasanaeth. Cynhelir sesiynau goruchwylio bob chwarter ac roedd arfarniadau wedi'u hamserlennu ar adeg yr arolygiad. Gwnaethom dderbyn cadarnhad bod hwn wedi'i drefnu yn dilyn yr ymweliad arolygu. Dywedodd gweithwyr staff y siaradwyd â nhw eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu rolau ac roeddent yn canmol y rheolwr. Roedd y sylwadau'n cynnwys y canlynol: "*mae'n hawdd iawn mynd at y rheolwr ac mae'n garedig iawn"* ac *"mae'n amgylchedd hapus iawn i weithio ynddo"*.

Mae gan y darparwr drefniadau ar waith ar gyfer goruchwyliaeth effeithiol y gwasanaeth drwy waith sicrhau ansawdd parhaus. Gwelsom y ddau adroddiad chwarterol diwethaf a gwblhawyd gan yr unigolyn cyfrifol a gwelsom fod y rhain yn cynnwys ymgysylltu â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth a'r staff a throsolwg o'r gwasanaeth yn gyffredinol. Gwelsom yr adroddiad chwe-misol diweddaraf ar ansawdd y gofal o fis Awst. Nid oedd yr adroddiad yr un mor fanwl â'r adroddiad chwarterol a bydd yr unigolyn cyfrifol yn edrych ar ganllawiau AGC a'r ddogfen dempled eto.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drosolwg o'r trefniadau ariannol a buddsoddi yn y gwasanaeth. Yn gyffredinol, mae'r gwasanaeth yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn fewnol ac mae goruchwyliaeth dda i gadw'r cartref mewn cyflwr da. Gwelsom fod rhywfaint o waith wedi'i wneud i adnewyddu un o'r ystafelloedd gwely, ac roedd cynlluniau ar y gweill i wella'r ystafell ymolchi i fyny'r grisiau. Roedd lefelau staffio'n ymddangos i fod yn dda yn ystod yr ymweliad ac roedd y bobl yn canmol y lefel o gymorth y maent yn ei derbyn a'r cyfleoedd sydd ganddynt i fod yn rhan o'r gymuned.

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achos o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 35 | Yn y ddwy ffeil bersonél a welwyd, dim ond un geirda cyn cyflogaeth a oedd ar gael ar gyfer y ddau unigolyn. Dau yw'r gofyniad ac mae'n rhaid i un fod gan y cyflogwr blaenorol. | Newydd |

**Dyddiad cyhoeddi** 13/01/2022